

Date/Dyddiad 10 Mehefin 2016

Ask for/Gofynnwch am M Matthews

Telephone/Rhif ffôn 01446 709727

Fax/Ffacs 01446 709376

Your Ref/Eich Cyf

My Ref/Cyf MM/Cadoxtonschools

e-mail/e-bost MMatthews@valeofglamorgan.gov.uk

The Vale of Glamorgan Council
Directorate of Learning and Skills
Provincial House, Kendrick Road, Barry CF62 8BF
Telephone: (01446) 700111 Textphone: (01446)
741219

Cyngor Bro Morgannwg

Dysgu a Sgiliau,

Tŷ'r Dalaith, Heol Kendrick, Y Barri CF2 8BF

Rhif ffôn: (01446) 700111 Ffôn destun: (01446)
741219

www.valeofglamorgan.gov.uk

www.bromorgannwg.gov.uk



At: Rhieni, Gwarcheidwaid a Gofalwr plant sy'n mynychu Ysgol Feithrin Tregatwg ac
Ysgol Gynradd Tregatwg
Penaethiaid, Staff a Chorff Llywodraethu Ysgol Feithrin Tregatwg ac Ysgol
Gynradd Tregatwg
Ymgynghoreion Statudol

Annwyl Ymgynghorai,

CYNNIG I UNO YSGOL FEITHRIN TREGATWG AC YSGOL GYNRADD TREGATWG

Ar 6 Mehefin 2016, penderfynodd Cabinet Cyngor Bro Morgannwg ar y cynnig i uno Ysgol Feithrin ac Ysgol Gynradd Tregatwg drwy ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Tregatwg o 4 hyd 11 i 3 hyd 11 mlwydd oed a dod ag Ysgol Feithrin Tregatwg i ben.

Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad llawn â'r ymgynghoreion penodedig, a ddaeth i ben gyda chyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y cynnig i uno. Fe wnaeth y Cabinet, wrth ddod i'w benderfyniad, ystyried holl adroddiadau blaenorol y Cabinet ynglŷn â'r cynnig; yr atebion i'r ymgynghoriad fel y'u cyflwynwyd yn Adroddiad yr Ymgynghoriad a'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd ynghyd ag ymateb yr awdurdod lleol fel y'i heglurwyd yn yr Adroddiad am Wrthwynebiadau. Wedi cymryd yr holl faterion i ystyriaeth, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo'r cynnig. O ganlyniad, bydd Ysgolion Meithrin a Chynradd Tregatwg yn dod yn un o 1 Medi 2016.

Nodwyd bod yna 113 o wrthwynebiadau statudol. Mae prif bryderon y gwrthwynebwyr wedi eu crynhoi yn yr adroddiad am wrthwynebiadau ynghyd ag ymateb yr awdurdod lleol. Mae modd gweld yr adroddiad am wrthwynebiadau ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk/cadoxtonschools neu mae copi caled ar gael os anfonir cais i'r cyfeiriad uchod neu drwy e-bost i MMatthews@valeofglamorgan.gov.uk.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet wedi ei fodloni y bydd y cynnig yn gwneud y canlynol:

- Cynnal ansawdd a safonau addysg yn yr ardal;
- Cynnal mynediad a dewis rhieni i gael darpariaeth gyfrwng Saesneg yn yr ardal;
- Parhau i ddarparu cyfuniad o ddarpariaeth gyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a ffydd o fewn y Barri a'r ardal gyfagos;
- Arwain at fwy o effeithlonrwydd wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer addysg o fewn yr ardal hon ei hun ac ar draws ystâd yr ysgolion;

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad, o ran y ffactorau a amlinellwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, fel a ganlyn:

Ansawdd a Safonau Addysg

Bydd y cynnig yn ei gwneud yn bosibl cyfuno'r safonau uchel mewn addysg sydd ar gael yn yr ysgolion ar wahân ar hyn o bryd a chyfrannu at ddarpariaeth o safon uchel mewn un ysgol a gaiff ei rhedeg ar ddau safle. Un pennaeth fydd yn rheoli'r ysgol newydd, yn wahanol i'r trefniant presennol, lle mae angen dau yn yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl rhannu gweledigaeth ac arweinyddiaeth a lleihau nifer yr adegau o drosglwyddo rhwng ysgolion sy'n rhan o brofiad y plant ar hyn o bryd. Bydd y cynnig yn gwneud yn fawr o'r manteision a ddaw o drosglwyddiad parhaus o'r fath ac yn cynyddu'r potensial i wella lefelau cyrhaeddiad y disgyblion i gyd.

Mae'r uniad yn seiliedig ar egwyddorion addysgol cadarn gan gynnwys dilyniant y disgyblion drwy ysgol sydd ag un ethos rheoli ac addysgu.

Barn Estyn yw bod "y cynnig yn debygol o gynnal y safonau addysg a'r ddarpariaeth yn yr ardal o leiaf. Nid yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar unrhyw ysgolion eraill nac ar ddarparwyr addysg gyn-ysgol yn yr ardal".

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Bydd Tregatwg a'r ardal gyfagos yn cadw darpariaeth Saesneg, Gymraeg a ffydd. Ni fydd nifer y lleoedd ysgol fydd ar gael i blant yn yr ardal yn newid o ganlyniad i'r cynnig. Bydd yr ysgol gyfunol yn parhau i ateb y galw gan rieni am leoedd yn yr ysgolion.

Ni fydd effaith o ganlyniad i'r cynnig ar deithiau disgyblion na'r llwybrau cerdded sydd ar gael i'r ysgolion gan y bydd yr ysgol gyfunol yn cael ei rhedeg dros y ddau safle presennol. Nid oes dim yn y cynnig fydd yn newid trefniadau cludiant ysgol, cymhwyster na hygyrchedd.

Dywed Estyn, "Mae'r cynigydd wedi ystyried yn briodol effaith y cynnig ar drefniadau teithio'r disgyblion. Mae'r cynnig yn datgan yn glir nad yw'n rhagweld newidiadau i'r drafndiaeth na'r tagfeydd o gwmpas yr ysgol, gan na fydd newid yng nghapasiti cyffredinol yr ysgol nac unrhyw estyniad i'r cyfleusterau presennol."

Adnoddau Addysg

O ganlyniad i uno'r ddwy ysgol caiff cyllid ei ddyrannu i'r ysgol gynradd ar yr un sail ag i ysgolion cynradd eraill gyda meithrinfeydd. Bydd y cyllid a ddirprwyir i'r ysgol gynradd oddeutu £86,000 yn llai na'r cyllid sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd i'r ysgol feithrin a'r ysgol gynradd ar wahân.

Bydd y cyllid a ddyrennir ar gyfer pob disgybl yn aros yr un fath. Bydd y rhan fwyaf o'r arbedion refeniw yn dod drwy newidiadau i staffio o ganlyniad i strwythur staffio newydd yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys yr arbedion a ddaw o gael un pennaeth yn unig ar gyfer yr ysgolion unedig.

Bydd uno'r ysgolion yn sicrhau y caiff yr adnoddau sydd ar gael eu defnyddio mor effeithiol ag sydd modd.

Mae'r penderfyniad yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau galw i mewn, fel y'u heglurir yng nghyfansoddiad y Cyngor, sy'n caniatáu adolygu'r penderfyniadau a wneir gan y Cabinet. Os bydd y penderfyniad yn digwydd cael ei alw i mewn, rhoddir gwybod i'r holl randdeiliaid.

Yn gywir



Anne Brown
Rheolwr Trefniadaeth Ysgolion